

Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â chynnal ymchwil ar gyfer ystod o gynnwys radio a sain ar draws pob *genre*.

Mae'n golygu meddu ar ddealltwriaeth eglur o ddiben yr ymchwil a sut caiff ei defnyddio.

Mae'n ymwneud â chyrchu neu gysylltu ag ystod eang o ffynonellau a gallu craffu data, neu holi unigolion er mwyn casglu gwybodaeth sy'n berthnasol neu'n arwyddocaol i'r pwnc dan sylw.

Mae'n mynnu dod i farn fwriadus am ddibynadwyedd ffynonellau a chywirdeb gwybodaeth.

Mae'n ymwneud â deall materion hawlfraint yn ogystal â chyfyngiadau cyfreithiol a moesegol.

Mae'r Safon hon yn berthnasol i bob un sy'n cynnal ymchwil i ddatblygu cynnwys yn y diwydiannau radio a sain

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. adnabod meysydd i gynnal ymchwil iddynt sy'n berthnasol i'r briff cynnwys radio neu sain
2. adnabod ffynonellau gwybodaeth a chynghor dibynadwy posibl pan fydd angen gwybodaeth arbenigol
3. cytuno ar y defnydd o ffynonellau arbenigol gyda phobl berthnasol a gwneud trefniadau i gcontractau gael eu cyhoeddi lle y bo'n briodol
4. cysylltu â ffynonellau perthnasol mewn ffordd sydd fwyaf tebygol o gael hyd i'r wybodaeth ofynnol
5. cynnal cofnodion cywir a chynhwysfawr a nodiadau cyfweliadau ar gyfer yr ymchwil a gynhelir
6. cadw cronfeydd data cysylltiadau'n gyfoes
7. storio pob math o wybodaeth yn ymwneud â ffynonellau ac ymchwil mewn ffordd ddiogel gyda phrotocolau sefydliadol cytûn
8. dyfeisio cwestiynau a defnyddio technegau holi priodol i sicrhau gwybodaeth ar gyfer briff yr ymchwil
9. casglu gwybodaeth o ystod o wahanol ffynonellau i alluogi barnu eu gwerth a'u dibynadwyedd
10. gwirio bod gwybodaeth yn ddilys, yn gywir ac yn addas at ei diben
11. asesu'r holl wybodaeth o ran ei pherthnasedd i'r cynnwys radio neu sain cyn dethol y deunydd a fydd yn gwireddu briff yr ymchwil orau
12. cael cynghor priodol am unrhyw feysydd a sy'n ddadleuol yn gyfreithiol
13. casglu gwybodaeth o fewn amserlenni, terfynau cyllidebau a gofynion cytundebol cytunedig
14. defnyddio'ch ymchwil i gynhyrchu nodiadau briffio cydlynol a chryno mewn ffurf sy'n briodol i'r defnyddiwr terfynol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. diben yr ymchwil a natur y cynnwys radio neu sain mae'n perthyn iddo
2. yr amserlenni, y terfynau amser a chyfyngiadau adnoddau ar gyfer yr ymchwil i'w chynnal ar gyfer creu cynnwys radio a sain
3. sut i rannu cynnig yn dasgau ymchwil ymarferol
4. ffynonellau gwybodaeth bosibl gan gynnwys pobl, cyhoeddiadau a chronfeydd data
5. sut i gysylltu â phobl i gael hyd i wybodaeth
6. pwysigrwydd cadw nodiadau ymchwil eglur, cynhwysfawr, cywir a chyfredol
7. y gofynion cyfreithiol a'r protocolau sefydliadol perthnasol ar gyfer storio gwybodaeth mewn perthynas ag ymchwil a ffynonellau
8. yr ystyriaethau masnachol, cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol wrth gysylltu â ffynonellau a pha drefniadau cytundebol sy'n berthnasol i ffynonellau arbenigol
9. sut i werthuso gwybodaeth o ran ei pherthnasedd, ei dibynadwyedd a'i chywirdeb a sut i wirio ac adnabod anghysonderau ac anghysondebau
10. sut i ymgymryd ag ymchwil effeithiol ar y rhyngrwyd, gan ddefnyddio peiriannau chwilio arbenigol lle bo angen
11. y risgiau cyfreithiol, y camgymeriadau ffeithiol a'r achosion posibl o dramgwyddo codau ymddygiad sy'n gysylltiedig â defnyddio deunydd o ffynonellau'r rhyngrwyd
12. gwerth, cyfyngiadau a risgiau defnyddio ffynonellau cyfryngau cymdeithasol
13. yr ystyriaethau cyfreithiol a moesegol perthnasol sy'n effeithio ar y defnydd o wybodaeth ar gyfer cynnwys radio neu sain
14. unrhyw gyfyngiadau ac amodau sy'n gysylltiedig â defnyddio gwybodaeth a goblygiadau defnyddio deunyddiau hawlfraint ar gyfer cynnwys radio a sain

Cynnal ymchwil ar gyfer cynnwys radio a sain

Datblygwyd gan	ScreenSkills
Dyddiad cymeradwyo	01 Maw 2017
Dyddiad Adolygu Dangosol	01 Maw 2020
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Creative Skillset
RCU gwreiddiol	SKSRC6
Galwedigaethau perthnasol	Cyfryngau a chyfathrebu, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Cyfryngau
Cyfres/Set	Creu Cynnwys Radio a Sain
Geiriau Allweddol	Radio, Sain, Cynnwys, Ymchwil, Cyfreithiol, Moesegol, Masnachol, Hawliau